"A voice for skin care in Wales"
"Llais i ofal croen yng Nghymru''

# Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Groen
Dydd Mawrth 12 Tachwedd, 2019
18:00 – 19:00 yn fras (lluniaeth yn dechrau am 17:45) Ystafell Gynadledda B, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd, CF99 1NA Cadeiriwyd gan Nick Ramsay AC

## Cofnodion y Cyfarfod

Yn bresennol: Rachel Abbott (BIP Caerdydd a'r Fro), Shaheen Akhtar (BIP Caerdydd a'r Fro), Christine Bundy (Prifysgol Caerdydd), Abbie Gardner (La Roche-Posay), Alex Gibbs (Prifysgol Caerdydd), Sharon Hulley (BIP Caerdydd a'r Fro), Dai Lloyd (Cynulliad Cymru), Maura Matthews (Tenovus), Avad Mughal (BIP Bae Abertawe), Anwen Nicholas (BIP Caerdydd a'r Fro), Girish Patel (BIP Caerdydd a'r Fro), Rachel Pattison (Prifysgol Caerdydd), Julie Peconi (Gofal Croen Cymru), Nick Ramsay (Cynulliad Cymru), Paul Thomas (Gofal Croen Cymru), Harry Thompson (Deryn), Dominic Urmston (y Gymdeithas Psoriasis), Deb Vine (Gofal Croen Cymru), Rob Vine (Gofal Croen Cymru), Iain Whitaker (Prifysgol Abertawe)

Ymddiheuriadau: Liz Allen (Cymdeithas Prydain er Cuddliwio'r Croen), Rebecca Andrews (Llywodraeth Cymru), Rose Bell (Gofal Croen Cymru), Andrew Davies (BIP Bae Abertawe), Martin Fiddler Jones (Tenovus), Jonathon Fox (Leo Pharma), Gail Grant (AbbVie), Keith Harding (Canolfan Arloesi ym maes Gwella Clwyfau), Glenda Hill (BIP Betsi Cadwaladr), Jenny Hughes (BIP Bae Abertawe), Olivia Hughes (Gofal Croen Cymru), Keith Jones (BIP Hywel Dda), Peter Lewis (Llywodraeth Cymru), Caroline Mills (BIP Aneurin Bevan) Richard Oliver (Hyperhidrosis UK), Alice Parker (La Roche-Posay), Karen Pontin (Iechyd Croen Bae Abertawe), Amanda Simonds (Celgene), Constantinos Skinitis (Novartis), Laura Stevenson (y Gymdeithas Psoriasis), Richard Tew (Novartis), Mayda Thomas (Gofal Croen Cymru), Ann Vosper (Gofal Croen Cymru), Sarah Wright (Gofal Croen Cymru).

1. Croeso, cyflwyniadau, ymddiheuriadau, cofnodion y cyfarfod blaenorol – Nick Ramsay

Croesawodd Nick Ramsay, y Cadeirydd, y grŵp, a chyflwynodd pawb eu hunain gan ddweud o ble roedden nhw'n dod. Diolchodd hefyd i noddwyr y cyfarfod, sef La Roche-Posay. Nododd Julie Peconi

fod sawl ymddiheuriad ac y byddai'n eu hychwanegu at y cofnodion er mwyn arbed amser.  Aeth Nick trwy'r Polisi Gwybodaeth ar gyfer y grŵp:

> "Yn unol â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2018 ac yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, mae Grwpiau Trawsbleidiol yn gyfrifol am drin eu data yn briodol. Bydd yr holl gofnodion (gan gynnwys rhestrau presenoldeb ac ymddiheuriadau) yn cael eu cyhoeddi ar-lein ar adran y Grŵp Trawsbleidiol ar wefan Llywodraeth Cymru ac ar wefan Gofal Croen Cymru.  Hefyd, cyhoeddir enwau mynychwyr y cyfarfod yn adroddiad blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol ar Groen.  Os ydych am optio allan o hyn, rhowch wybod i ysgrifenyddiaeth y Grŵp Trawsbleidiol ar Groen, sef Julie Peconi ar j.peconi@swansea.ac.uk."

Aethom drwy gofnodion y cyfarfod blaenorol a chytunwyd eu bod yn gofnod cywir o'r cyfarfod. Trosglwyddom y cam gweithredu i ysgrifennu at Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn gofyn am gadarnhad y byddai deddfwriaeth ar welyau haul yn bendant yn cael ei chynnwys yn yr ymgynghoriad nesaf.

Cam gweithredu:  Nick Ramsay i ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofyn am gadarnhad y byddai deddfwriaeth ar welyau haul yn cael ei chynnwys yn yr ymgynghoriad.

2. Diweddariad ar y Rhaglen Gofal wedi'i Gynllunio – Julie Peconi, Gofal Croen Cymru, ar ran Rebecca Andrews, Gofal wedi'i Gynllunio

Roedd Rebecca wedi darparu diweddariad byr ar y tair ffrwd waith ar gyfer 2019-20: adolygiad cenedlaethol o wasanaethau dermatoleg yng Nghymru, gwell cyfleoedd i feddygon iau yng Nghymru ddilyn gyrfa mewn dermatoleg trwy greu swyddi Cymrawd Clinigol a gwell gwasanaeth lleol ar gyfer mân lawdriniaethau croen mewn gofal sylfaenol.  Cyflwynwyd y diweddariad yn y cyfarfod ac fe'i cylchredir gyda'r cofnodion hyn.

3. Cynyddu niferoedd hyfforddiant yng Nghymru – Avad Mughal, Gofal Croen Cymru. Siaradodd Avad â'r grŵp am y prinder dermatolegwyr yng Nghymru ac, yn benodol, bod Gorllewin/Gogledd Cymru yn ei chael hi'n anodd er gwaethaf y galw cynyddol.  Siaradodd am ffyrdd y gallai'r Grŵp Trawsbleidiol ar Groen gefnogi cynnig i gynyddu'r niferoedd hyfforddi: dylai'r cynnig gynnwys sawl ongl neu safbwynt ynghylch pam ei bod yn bwysig cynyddu'r niferoedd hyfforddi ar gyfer dermatoleg yng Nghymru.

Amlinellodd y llinell amser ar gyfer y cynnig: mae cynlluniau ar gyfer y gweithlu yn cael eu cynnal mewn cylchoedd (yr un nesaf yw mis Awst 2021) gyda chyfnod ymgynghori cyn hyn (Ion-Mai) ac argymhellion terfynol yn cael eu cyflwyno i grwpiau cymheiriaid y GIG a'r Gweinidog ar gyfer y penderfyniad terfynol ym mis Tachwedd.  Soniodd Avad fod prinder mewn arbenigeddau eraill ond bod dermatoleg yn unigryw

oherwydd, yn wahanol i arbenigeddau eraill, mae gan ddermatoleg ormodedd o ymgeiswyr: dim ond un lle hyfforddi sydd ar gael ar gyfer pob 5 ymgeisydd.

Ei gamau nesaf yw casglu data ar alw a gweithio gyda rhanddeiliaid i gyflwyno achos mor eang â phosibl. Y rhanddeiliaid a ddylai fwydo i'r cynnig hwn yw grwpiau cleifion, elusennau, Fforwm Dermatoleg Cymru a Chynulliad Cymru i gynyddu niferoedd hyfforddiant mewn dermatoleg. Bydd llais y claf yn rhan fawr o hyn, er enghraifft astudiaethau achos mewn psoriasis. Hefyd, siaradodd Iain Whitaker am sut y gallai plastigau weithio gyda dermatoleg. Cafwyd trafodaeth am rôl Gofal Croen Cymru a sut y gallai'r elusen gefnogi'r cynnig. Bydd Avad yn cysylltu eto gyda gwybodaeth fwy manwl ynglŷn â sut mae angen helpu.

Cam gweithredu: Avad i roi gwybod i'r Grŵp Trawsbleidiol ar Groen pa wybodaeth y mae angen iddo ei chael ganddynt i gyfrannu at y cynnig.

4. Mae'r Haul yn Dod: Gwerthuso rhaglen addysg diogelwch haul ysgolion – Maura Matthews, Tenovus Cancer Care

Cyflwynodd Maura ganlyniadau'r gwerthusiad hwn, gan osod yr olygfa trwy siarad am sut y gellir atal canser y croen a bod llosg haul yn ystod plentyndod yn benderfynydd allweddol o'r risg o ganser y croen yn ddiweddarach mewn bywyd. Cynigiodd Tenovus eu Rhaglen Addysg Diogelwch Haul Ysgolion, sef Mae'r Haul yn Dod, i bob un o'r 1,242 o ysgolion cynradd yng Nghymru, gyda 128 ysgol yn unig yn manteisio ar y cynnig (10%). Disgrifiodd yr ymyrraeth y mae Tenovus yn ei chynnig a'r adborth a'r canlyniadau cadarnhaol a gawsant gan yr ysgolion sydd wedi cymryd rhan. Fodd bynnag, adroddodd fod mwy o waith i'w wneud gan nad oedd unrhyw ysgol wedi manteisio ar y rhaglen yn Abertawe, Sir Fynwy, Powys, Sir y Fflint, Merthyr, Blaenau Gwent a Wrecsam. Soniodd hefyd am rai o'r pethau sy'n rhwystro ysgolion rhag derbyn y rhaglen, gan gynnwys y ffaith nad yw'n orfodaeth ar ysgolion i gynnig polisïau diogelwch yr haul, cyngor anghyson gan y Rhaglen Ysgolion Iach a'r awdurdod addysg leol a'r ffaith nad yw'r rhaglen yn ddwyieithog. Wrth symud ymlaen, mae Tenovus Cancer Care yn lobïo am ofynion gorfodol sy'n mynnu bod ysgolion cynradd yn mabwysiadu polisïau diogelwch haul cadarn, bod y Cynllun Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru yn diwygio'r nodiadau arweiniad er mwyn cynnwys rhaglenni ar sail tystiolaeth fel Skcin Sun Safe Schools a HCTS ac maent yn gweithio gydag elusen Skcin i ddod o hyd i gyllid i gynnig adnoddau dwyieithog i ysgolion. Gorffennodd Maura trwy ofyn sut y gall y Grŵp Trawsbleidiol ar Groen gefnogi eu hymdrechion. Cafwyd trafodaeth a arweiniodd at y camau canlynol:

Cam gweithredu: Nick Ramsay i ysgrifennu at y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams, yn gofyn iddi ryddhau arian i helpu gyda chyfieithu deunydd Tenovus Mae'r Haul yn Dod i'r Gymraeg.
Cam gweithredu: Nick Ramsay i ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn helpu i annog mwy o ysgolion i fanteisio ar y rhaglen.

Cam gweithredu: Dai Lloyd, fel Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, i ysgrifennu at ysgolion lleol i hyrwyddo'r nifer sy'n manteisio arno.

5. Effaith Creithiau'r Wyneb ar ôl Llawdriniaeth Canser y Croen yn erbyn Achosion Eraill a Rheoli Canser y Croen nad yw'n Felanoma – rhoddodd Iain Whitaker o Brifysgol Abertawe drosolwg o'i uned a'r prif themâu ymchwil, gan gynnwys canser y croen a chreithiau'r wyneb. Cyflwynodd ganfyddiadau astudiaeth ddiweddar a ddefnyddiodd ddata cysylltiol a oedd â'r nod o bennu: amlder a demograffeg creithiau ar yr wyneb yng Nghymru; y cysylltiad rhwng pryder ac iselder a chreithiau ar yr wyneb ac a yw achoseg creithio'r wyneb yn gysylltiedig â risg uwch o ddatblygu pryder ac iselder. Dangosodd y canlyniadau fod pryder ac iselder yn faich mawr ymysg cleifion â chreithiau wyneb. Hefyd, mae cysylltiad rhwng achoseg a risg datblygu anhwylderau affeithiol ac mae angen gwella'r gefnogaeth seicolegol i gleifion â chreithiau wyneb. Hefyd, mae'r ymchwil yn rhoi syniad o bwy i'w dargedu ar gyfer cefnogaeth, gan gynnwys pobl â thiwmorau anfalaen a dioddefwyr ymosodiadau.

Hefyd, cyflwynodd Iain ganfyddiadau yn ymwneud â defnyddio data mawr i asesu effaith economaidd iechyd canser y croen yng Nghymru. Nod yr astudiaeth hon oedd pennu ac amlygu epidemioleg canser y croen yng Nghymru; baich canser y croen ar adnoddau gofal iechyd; asesu hygyrchedd gofal a phennu baich ac effeithiolrwydd apwyntiadau dilynol cleifion. Gan ddefnyddio data dienw ar gyfer melanoma, roedd 9,636 o gleifion (2000-2015), gyda 152,248 o apwyntiadau allbwn, 48,873 o driniaethau a 16,779 o ddiwrnodau yn yr ysbyty. Ar gyfer canser y croen nad yw'n felanoma, cofnodwyd 54,203 o gleifion rhwng 2000 a 2015, ac roedd 37,623 BCC, 16,580 SCC, 149,641 o driniaethau a 42,075 o ddiwrnodau yn yr ysbyty. Daeth i'r casgliad bod canser y croen yn gosod baich mawr ar gleifion ac ar y GIG. Gyda'r niferoedd yn cynyddu, dylid defnyddio data a gesglir yn rheolaidd i ail-ddylunio gwasanaethau, a dylai cofrestru canser y croen nad yw'n felanoma fod yn orfodol.

Siaradodd y grŵp am sut y gallai'r holl wahanol arbenigeddau a grwpiau ym maes croen weithio gyda'i gilydd i godi ymwybyddiaeth o'r materion hyn. Dywedodd Iain fod ganddo rai cleifion a allai fod yn barod i rannu eu straeon er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth hefyd.

6. Unrhyw fater arall – Pawb

Rhoddodd Chris Bundy wybod am y cynnydd gyda rhaglen hyfforddi PsoWell. Bellach, mae wedi cael ei chynnal mewn 8 canolfan ledled y DU, gan gynnwys Caerdydd, gyda thua 20 o gyfranogwyr yn mynychu pob lleoliad. Y bobl sy'n mynychu yw dermatolegwyr neu ddermatolegwyr dan hyfforddiant, nyrsys dermatoleg arbenigol a rhai meddygon teulu sydd â diddordeb arbennig, ynghyd â rhai seicolegwyr a fferyllwyr sydd â diddordeb yn y maes hwn. Mae yna 3 lle o hyd ym Mryste, Dundee ac ail gwrs yn Llundain a bydd y rhaglen yn dod i ben ym mis Mawrth 2020. Mae gan y cwrs enw da. Mae hi hefyd wedi bod yn gysylltiedig â rhaglen ddogfen ar BBC3 yn archwilio'r profiad o fyw gyda gwahanol gyflyrau ar y croen.

Mae Julie bron â chwblhau drafft terfynol y prosiect ymchwil ynghylch cadw ymgynghorwyr a bydd yn darparu diweddariad yn y Grŵp Trawsbleidiol ar Groen nesaf.

Bydd Julie’n rhoi gwybod am ddyddiad y cyfarfod nesaf, a gynhelir ymhen tua 6 mis.